


Apeliadau Academaidd

Os ydych chi'n anhapus efo canlyniad arholiad neu asesiad, neu os ydych chi heb basio profiad ar leoliad, mae'n bosib gallwch chi gyflwyno **apêl academaidd** o dan **Broses Apeliadau Academaidd** y Brifysgol. Dydi apêl ddim yn dod o anghytuno efo'ch gradd yn unig, mae'n rhaid i chi gael sail ddilys i'r Brifysgol allu ail-ystyried y penderfyniad.

Fel arfer, dylech chi gyflwyno eich apêl o fewn 20 diwrnod gwaith i dderbyn y penderfyniad gan y Bwrdd Arholi. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Brifysgol dderbyn apêl hwyr os fod gennych chi reswm da dros golli'r dyddiad cau. Ni allwch chi gyflwyno apêl yn erbyn gradd dros dro. Bydd rhaid i chi aros nes bod eich gradd wedi cael ei gadarnhau/ffurfioli gan y Bwrdd Arholi.

Bydd rhaid i'ch apêl gael ei seilio ar un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol:

- Mae camgymeriad rhifyddol, gweinyddol, neu ffeithiol wedi bod sydd wedi effeithio eich canlyniad.
- Gwnaethoch chi brofi amgylchiadau personol a gafodd effaith negyddol sylweddol ar eich perfformiad academaidd neu wrth fod ar leoliad.
- Roedd yna ddiffygion neu afreoleidd-dra yn y ffordd cafodd eich asesiad neu eich lleoliad ei gynnal, neu yn y cyfarwyddiadau neu'r cyngor derbynioch chi, a all fod wedi effeithio ar eich perfformiad.

Mae'n bwysig cofio na allwch chi apelio yn erbyn barn academaidd. Mae hyn yn golygu na allwch chi gyflwyno apêl achos eich bod chi'n credu fod eich gradd yn rhy isel neu gan eich bod chi'n anghytuno efo asesiad academaidd eich gwaith.

Sut ydw i'n cyflwyno apêl?

Cam 1: Apêl Academaidd

Os mae gennych chi sail ddilys, gallwch chi gyflwyno'ch apêl ar y porth **Gwaith Achos Myfyrwyr**. Pwyswch y botwm "Adrodd Mater". Dylech chi gynnwys:

- Manylion yr asesiad rydych chi'n apelio: Er enghraifft, *Traethawd 1 – SXS 4002*.
- Y rhesymau dros eich apêl: Esboniwch y rheswm/rhesymau dros eich apêl yn glir, gan gynnwys amserlen o ddigwyddiadau perthnasol a sut gwnaeth yr amgylchiadau hyn effeithio arnoch chi yn ystod y cyfnod asesu.
- Tystiolaeth ategol: Rhaid cynnwys unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi'ch apêl, fel dogfennaeth feddygol, sgrinluniau, e-byst, neu unrhyw ddogfennau perthnasol eraill.
- Canlyniad dymunol: Esboniwch yn glir pa ganlyniad neu ddatrysiad rydych chi'n chwilio amdano yn dilyn eich apêl.
- Unwaith i chi gyflwyno'ch apêl, bydd yr Ysgol yn ystyried eich cais ac yn anfon ei ymateb trwy'r porth.

Beth os nad ydw i'n hapus efo'r canlyniad?

Cam 2: Adolygiad

Os nad yw'ch apêl yn llwyddiannus, neu os ydych chi'n anfodlon efo penderfyniad eich Ysgol, gallwch chi wneud cais am adolygiad trwy'r porth Gwaith Achos Myfyrwyr. Dydi adolygiad ddim yn ail apêl a dim ond ar seiliau penodol ellir gofyn am un. Mi fydd adolygiadau yn cael eu cynnal gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr) neu gan enwebai.

Gall adolygiad gael ei ystyried os oedd yna gamgymeriad yn y broses o ddelio â'ch apêl a all fod wedi effeithio'r canlyniad, neu pan fod tystiolaeth newydd a ddylid ei ystyried nawr ar gael. Os mae adolygiad eich apêl yn ymwneud ag amgylchiadau personol, bydd rhaid i chi esbonio pam na gafodd y rhain eu codi yn ystod eich apêl wreiddiol.

Dylech chi gyflwyno adolygiad eich apêl o fewn 10 diwrnod gwaith i dderbyn canlyniad yr apêl.

Canlyniad Adolygiad

Yn dilyn Adolygiad, mae yna ddau ganlyniad posib:

1. *Caiff penderfyniad yr Apêl wreiddiol ei gadarnhau*

Falle bydd y penderfyniad gwreiddiol yn cael ei gadarnhau os:

- Does dim tystiolaeth fod y broses a ddefnyddiwyd i ystyried eich Apêl heb gael ei ddilyn yn gywir, na fod yna afreolaidd-dra sylweddol wedi bod.
- Rydych chi wedi darparu tystiolaeth newydd fel rhan o'r Adolygiad oedd ar gael i chi'n barod a gall fod wedi cael ei ddefnyddio'n ystod yr Apêl wreiddiol, a'ch bod chi heb ddarparu rheswm digonol dros pam na gafodd ei gyflwyno ar y pryd.

2. *Caiff yr Apêl ei ailystyried*

Gall gofyn i'r Bwrdd Arholi ailystyried eich Apêl os:

- Mae yna dystiolaeth fod diffygion neu afreolaidd-dra wedi bod yn y broses a ddefnyddiwyd i ystyried eich Apêl.
- Mae yna dystiolaeth fod amgylchiadau arbennig y codoch chi fel rhan o'ch Apêl heb gael ei ystyried gan y Bwrdd Arholi pan gafodd eich canlyniad ei benderfynu.
- Rydych chi wedi darparu gwybodaeth newydd oedd ar gael i chi, ac all fod wedi cael ei ddefnyddio yn eich Apêl wreiddiol, ond rydych chi wedi darparu rheswm digonol dros pam na gafodd y wybodaeth ei gyflwyno ar y pryd.

3. *Caiff yr Adolygiad ei gyfeirio at Banel Apêl y Senedd*

Gall yr Adolygiad gael ei gyfeirio at Banel Apêl y Senedd os mae'r Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad Myfyrwyr), neu ei enwebai, yn credu fod cymhlethdod neu amgylchiadau eraill ynghylch eich Apêl yn golygu y dylai'r penderfyniad gael ei ystyried gan Banel Apêl y Senedd.

Unwaith i chi gwblhau prosesau mewnol y Brifysgol, a'ch bod chi dal i gredu nad ydi'ch cais wedi ei ddatrys yn deg, gallwn ni eich cynghori chi ar godi eich pryderon at **Swyddfa'r Dyfarnwyr Annibynnol (OIA).** Mae'r OIA yn sefydliad annibynnol sydd yn adolygu cwynion myfyrwyr. Rhaid i chi gwblhau prosesau mewnol y Brifysgol cyn gallwch chi ofyn i'r OIA ystyried eich cais.

Sut all Undeb y Myfyrwyr helpu?

Gall ein Gwasanaeth Cyngor eich cefnogi chi drwy'r broses apeliadau. Rydyn ni'n argymell anfon drafft o'ch apêl neu'ch adolygiad i ni o leiaf pum diwrnod gwaith cyn y dyddiad cau, fel bod gennym ni ddigon o amser i ddarparu adborth.

Fe wnawn ni eich helpu chi i ddeall y broses apeliadau, edrych dros eich drafft, esbonio ymatebion y Brifysgol, a chadw trac ar ble yn y broses mae'ch cais. Os na caiff eich apêl ei gynnal a bod yna sail i ofyn am adolygiad, fe wnawn ni barhau i'ch cefnogi a'ch tywys chi trwy'r cam nesaf.